Cymhorthdal Incwm

Help os ydych ar incwm isel

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau



Canllaw cyffredinol yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn y daflen hon yn gywir o fis Chwefror 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft, o ganlyniad i newidiadau i'r gyfraith.

Cynnwys

Cymhorthdal Incwm

Beth yw Cymhorthdal Incwm 5
A allaf gael Cymhorthdal Incwm? 5
A allaf wneud cais am Gymhorthdal Incwm ar gyfer fy nheulu? 7
Beth os wyf dros 60 oed? 7

Lle rydych chi'n byw

A oes rhaid i mi fyw ym Mhrydain Fawr i gael Cymhorthdal Incwm? 8
Beth os byddaf yn mynd dramor? 8
A oes ots pa fath o le rwy'n byw ynddo? 9
A allaf wneud cais am Gymhorthdal Incwm os wyf yn byw mewn cartref gofal? 9

Gweithio

A allaf weithio a gwneud cais am Gymhorthdal Incwm? 10
A allaf gael Cymhorthdal Incwm os oes gennyf swydd llawn amser? 10
Beth os wyf mewn anghydfod masnachol? 11
A allaf gael Cymhorthdal Incwm tra'n gwirfoddoli? 11
Sut i wneud cais 12
Sut y caiff fy nghais ei benderfynu? 12
Sut telir fy mudd-dal? 13
Beth os bydd angen help brys arnaf ond na allaf gael Cymhorthdal Incwm? ...13

Help i blant

A allaf gael credydau treth? 14

Beth os nad yw rhiant arall y plentyn yn byw gyda ni? 14

Help arall

A allaf gael help i dalu am fy nghostau tai? 15

A allaf gael unrhyw help gyda chostau iechyd? 15

Taliadau Tywydd Oer 16

Pa fathau eraill o help y gallaf eu cael os ydw i'n feichiog neu os oes gennyf fabi? 16

Cynllun Cymorth Ymweliadau â Charchar 17

Newidiadau yn eich bywyd

Beth os bydd rhywbeth yn newid? 17

Beth os byddaf yn mynd i'r ysbyty? 18

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth 18

Cymhorthdal Incwm

Beth yw Cymhorthdal Incwm?

Arian ychwanegol yw hwn i bobl sydd ar incwm isel.

Mae ar gyfer pobl nad oes rhaid iddynt gofrestru yn ddi-waith.

Gallai hyn fod os ydych:

- yn rhiant unigol, neu
- yn ofalwr.

A allaf gael Cymhorthdal Incwm?

Mae ar gyfer pobl:

- sydd rhwng 16 a'r oedran y gallwch gael Credyd Pensiwn
- sydd ar incwm isel
- sy'n gweithio llai na 16 awr yr wythnos
- nad ydynt yn astudio'n llawn amser (er y ceir rhai eithriadau - gweler tudalen 6)
- nad ydynt yn cael Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- nad oes ganddynt gynilion dros £16,000, ac
- sy'n byw ym Mhrydain Fawr.

Bydd yr oedran y gallwch gael Credyd Pensiwn yn codi o 60 i 65 erbyn 2020. Mae'n gysylltiedig â newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched.

Sut i wneud cais

Ffôn:
0800 012 1888

Ffôn testun:
0800 023 48 88

Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Ar-lein:
www.dwp.gov.uk/eservice

Nid yw ambell riant unigol yn gallu cael Cymhorthdal Incwm. Mae'n ddibynnol ar oedran eu plentyn ieuengaf, ac mae'n newid o 12 yn 2008 i 7 o fis Hydref 2010

Efallai y gallech gael Cymhorthdal Incwm os:

- rydych yn rhiant unigol
- rydych ar absenoldeb rhiant neu dadolaeth
- rydych yn ofalwr, neu
- rydych yn ffoadur sy'n dysgu Saesneg ac sydd wedi cyrraedd lai na blwyddyn yn ôl.

Gall pobl ifanc mewn addysg berthnasol gael Cymhorthdal Incwm hefyd. Yn gyffredinol mae hyn yn golygu addysg llawn amser hyd at TAG neu Safon Uwch neu Dystysgrif Addysg yr Alban (safon Uwch). Gallai hyn fod yn berthnasol i chi os:

- rydych yn rhiant unigol
- nad ydych yn byw gyda rhiant neu rywun sy'n gweithredu fel rhiant
- rydych yn wynebu risg ddifrifol neu drais,neu
- rydych yn ffoadur sy'n dysgu Saesneg.

Gallwch gael Cymhorthdal Incwm yn ogystal ag ambell fudd-dal arall.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Partner

Byddwn yn eich trin fel cwpl os ydych yn byw gyda'ch gŵr, gwraig neu bartner sifil, neu os ydych yn byw gyda rhywun fel pe baent yn ŵr, gwraig neu'n bartner sifil i chi. Rydym yn galw'r person arall hwn yn bartner i chi.

A allaf wneud cais am Gymhorthdal Incwm ar gyfer fy nheulu?

Gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm ar eich cyfer chi a'ch partner.

Ni chaiff Cymhorthdal Incwm ei dalu mwyach ar gyfer unrhyw blentyn os ydych yn gwneud cais newydd. Er mwyn cael arian ar gyfer plant, mae'n rhaid i chi wneud cais am Gredyd Treth Plant yn lle hynny erbyn hyn.

Os hoffech gael gwybod mwy am gredydau treth, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM (gweler tudalen 14 am fanylion).

Dim ond un person mewn teulu a all wneud cais am Gymhorthdal Incwm ar unrhyw adeg. Mae sawl math o bremiymau (symiau ychwanegol) y gallech eu cael yn seiliedig ar eich amgylchiadau chi a'ch partner. Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith i gael rhagor o wybodaeth.

Beth os ydwyf yn 60 neu drosodd?

Os oes gennych chi neu'ch partner incwm isel a dros 60 oed, efallai y bydd yn well i chi wybod am Gredyd Pensiwn.

Mae Pensiwn Credyd yn ychwanegu at incwm wythnosol i lefel isafswm gwarantedig.

Mae'r oedran gofynnol y gallwch gael Pensiwn Credyd yn codi mewn camau rhwng mis Ebrill 2010 a 2020, o 60 i 65. Mae'n gysylltiedig â newidiadau i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i ferched. I gael gwybod mwy, ewch i www.direct.gov.uk/cy

I wneud cais am Gredyd Pensiwn ffoniwch 0800 99 1234

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Prydain Fawr (PF)

Cymru, Lloegr a'r Alban.

Lle rydych chi'n byw

A oes rhaid i mi fyw ym Mhrydain Fawr i gael Cymhorthdal Incwm?

Pan fyddwch yn gwneud cais, mae'n rhaid eich bod ym Mhrydain Fawr ac yn byw yma fel arfer. Os ydych wedi symud yma i ymgartrefu, mae hynny'n cyfrif fel byw yma.

Ni ddylech fod o dan reolaeth mewnfudo.

Mae rhai eithriadau i'r rheolau hyn. Os ydych yn ansicr, gofynnwch.

Beth os byddaf yn mynd dramor?

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm a'ch bod yn mynd dramor, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni. Efallai y gallech gael y budd-dal hwn o hyd os:

- rydych ond yn mynd i ffwrdd am gyfnod byr; neu
- rydych ond yn mynd dramor i gael triniaeth feddygol dan y GIG.

A oes ots pa fath o le rwy'n byw ynddo?

Nac oes. Gallwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm o hyd os ydych:

- yn cysgu ar y stryd
- yn byw mewn hostel, neu
- yn byw mewn cartref gofal.

Nid ydym yn talu Cymhorthdal Incwm i bobl ifanc y mae awdurdod lleol yn gofalu amdanynt.

A allaf wneud cais am Gymhorthdal Incwm os wyf yn byw mewn cartref gofal?

Gallwch, os ydych yn bodloni'r amodau i'w gael.

Gallai faint a gewch fod yn wahanol. Mae'r rheolau cynilo yn wahanol hefyd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Gweithio

A allaf weithio a gwneud cais am Gymhorthdal Incwm?

Gallwch, os ydych yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos. Ond, caiff rhywfaint o'r swm rydych yn ei ennill ei ystyried wrth asesu eich hawl i gael budd-dal. Bydd y swm na chaiff ei ystyried yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

A allaf gael Cymhorthdal Incwm os oes gennyf swydd llawn amser?

Os ydych yn cymryd cyfnod rhiant di-dâl, neu gyfnod tadolaeth (â thâl neu'n ddi-dâl), efallai y gallwch gael Cymhorthdal Incwm. Mae'n rhaid i chi fodloni'r holl amodau eraill i gael Cymhorthdal Incwm a bod hawl gennych i gael un o'r budd-daliadau canlynol:

- Credyd Treth Gwaith
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor, neu
- Credyd Treth Plant (ar gyfradd sy'n uwch na'r elfen deuluol).

Os nad oes hawl gennych i gael un o'r budd-daliadau a restrir uchod a'ch bod yn cymryd cyfnod rhiant di-dâl, efallai y gallwch gael Cymhorthdal Incwm o hyd.

Mae'n bosibl y gallwch gael Cymhorthdal Incwm hefyd os ydych yn weithiwr anabl sy'n ennill llai na rhywun sydd yn yr un swydd heb yr anabledd hwnnw.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Beth os wyf mewn anghydfod masnachol?

Os ydych mewn anghydfod masnachol, ni allwch wneud cais am Gymhorthdal Incwm.

Os oes gennych bartner, gallech wneud cais amdano ar eu cyfer. Ond dim ond ar ôl saith diwrnod ar ôl i chi roi'r gorau i weithio y gallant ddechrau ei gael.

A allaf gael Cymhorthdal Incwm tra'n gwirfoddoli?

Gallwch, ar yr amod eich bod yn dal i fodloni'r amodau ar gyfer cael Cymhorthdal Incwm.

Os byddwch yn gwirfoddoli, rhaid i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith. Byddwn yn gofyn i chi gwblhau ffurflen.

Fel gwirfoddolwr, efallai y cewch eich talu am rywfaint o'ch treuliau, fel costau teithio er enghraifft. Ni chaiff y rhain eu cyfrif fel incwm fel arfer. Bydd angen i chi gadw derbynebau ar gyfer unrhyw daliadau a gewch, i brofi mai ar gyfer treuliau y mae'r rhain yn unig.

Sut i wneud cais

Ffôn: 0800 012 1888
Ffôn testun: 0800 023 48 88
Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 6pm

Yn ystod yr alwad byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth gan gynnwys:

- eich rhif Yswiriant Gwladol
- eich manylion cyfrif banc
- manylion eich rhent neu forgais
- manylion eich cyflogwr yn y gorffennol neu eich cyflogwr presennol, a
- manylion am unrhyw incwm arall a chynilion.

Neu gallwch wneud cais ar-lein yn www.dwp.gov.uk/eservice

Sut y caiff fy nghais ei benderfynu?

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn edrych ar eich enillion, eich cynilion a'ch costau byw.

Yn seiliedig ar hyn, byddwn yn penderfynu a allwch gael Cymhorthdal Incwm. Byddwn yn hysbysu ein penderfyniad atoch mewn llythyr.

Os byddwch yn credu bod ein penderfyniad yn anghywir, gallwch:

- ofyn i ni ei egluro
- gofyn i ni edrych arno eto, neu
- apelio i dribiwnlys.

Gallwch wneud hyn drwy ffonio neu ysgrifennu at y swyddfa sy'n ymdrin â'ch achos. Bydd y manylion cyswllt ar y llythyr.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Mae'n rhaid i chi gysylltu â'r swyddfa o fewn mis i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad..

Sut byddaf yn cael fy nhalu?

Rydym yn talu budd-daliadau i mewn i'ch cyfrif. Dyma'r ffordd orau o gael eich budd-dal oherwydd gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd arian allan o'ch cyfrif. Gall eich cyfrif fod gyda banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post.

Beth os bydd angen help brys arnaf ond na allaf gael Cymhorthdal Incwm?

Os na allwch gael help drwy Gymhorthdal Incwm, efallai y gallwch gael Benthyciad Argyfwng yn lle hynny.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Llinell gymorth credydau treth

Ffôn:
0845 302 1489

Ffôn testun:
0845 300 3909

Ar agor 8am i 8pm bob dydd.

Ar-lein:
www.hmrc.gov.uk/taxcredits

Help i blant

A allaf gael credydau treth?

Os ydych yn gyfrifol am blant neu bobl ifanc, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant.

Os byddwch yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, dylech wneud cais am Gredyd Treth Plant hefyd.

Os ydych yn gweithio a bod gennych incwm isel, gallech gael Credyd Treth Gwaith.

Gall hyn helpu gyda chostau gofal plant.

Os hoffech gael gwybod mwy am gredydau treth, cysylltwch â Chyllid a Thollau EM.

Beth os nad yw rhiant arall y plentyn yn byw gyda ni?

Os ydych yn magu plentyn sydd â rhiant nad yw'n byw gyda chi, efallai y gallwch gael taliadau cynhaliaeth plant. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gynhaliaeth plant, mae gwasanaeth diduedd a elwir yn Opsiynau Cynhaliaeth Plant y gallwch gysylltu â hwy i gael help wrth sefydlu trefniant cynhaliaeth i chi a'ch teulu.

Gweler tudalen 18 am fanylion am sut i gysylltu â hwy.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Help arall

A allaf gael help i dalu am fy nghostau tai?

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, efallai y gallwch gael helpu i dalu:

- rhai costau tai, drwy Gymhorthdal Incwm (er enghraifft, llog morgais)
- eich rhent, drwy Fudd-dal Tai, neu
- treth cyngor, drwy'r Budd-dal Treth Cyngor.

Er mwyn canfod yn union pa help y gallwch ei gael, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Cynghorau lleol sy'n talu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor. Ond gallwch wneud cais am y budd-daliadau hyn drwy'r Ganolfan Byd Gwaith.

A allaf gael unrhyw help gyda chostau iechyd?

Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'ch helpu i'ch cadw chi a'ch plant yn iach.

Mae gennych hawl i help gyda thriniaeth ddeintyddol y GIG a rhai costau teithio, os ydych yn cael:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n ymwneud ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm, neu
- rhan gwarantedig y Credyd Pensiwn

Os oes gennych hawl i dystysgrif eithrio credyd treth y GIG neu fod gennych hawl i gael un, gallwch hefyd gael help.

Os ydych ar incwm isel, efallai y gallwch gael help gyda rhai costau iechyd.

Taliadau Tywydd Oer

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, efallai y gallwch gael Taliad Tywydd Oer.

Arian ychwanegol yw hwn i dalu am wres mewn cyfnod o dywydd oer iawn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Pa fathau eraill o help y gallaf eu cael os ydw i'n feichiog neu os oes gennyf fabi?

Efallai y gallwch gael Grant Mamolaeth Cychwyn Cadarn hefyd i helpu gyda chostau ychwanegol ar gyfer y babi, os ydych chi neu'ch partner yn cael Cymhorthdal Incwm, a:

- bod gennych fabi bach, neu
- eich bod ar fin cael babi.

Nid oes rhaid talu'r arian hwn yn ôl.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Efallai y gallwch hefyd gwneud cais am dalebau bwyd a fitaminau 'Cychwyn Iach' hefyd, os ydych:

- yn cael Cymhorthdal Incwm,
- rydych yn feichiog
- rydych yn fam i fabi bach, neu
- mae gennych blentyn o dan 4 oed.

Holwch eich meddygfa neu glinig iechyd i gael ffurflen.

Uned Cymorth Ymweliadau â Charchar:

Ffôn:
0845 300 1423

Ffôn testun:
0845 304 0800

Dydd Llun i ddydd Gwener
10.15am i 11.45am
a 2.15pm i 3.45pm

Cynllun Cymorth Ymweliadau â Charchar

Os ydych yn cael Cymhorthdal Incwm, efallai y gallwch gael help i ymweld â phartner neu berthynas agos yn y carchar.

Os hoffech gael gwybod mwy, cysylltwch â'r Uned Cymorth Ymweliadau â Charchar, y carchar rydych yn ymweld ag ef, neu'r Ganolfan Byd Gwaith.

Newidiadau yn eich bywyd

Beth os bydd rhywbeth yn newid?

Dywedwch wrthym am unwaith os bydd rhywbeth yn newid a all effeithio ar eich Cymhorthdal Incwm.

Er enghraifft, rhowch wybod i ni os byddwch chi neu'ch partner:

- yn symud tŷ (neu os bydd pobl eraill yn symud i mewn i'ch tŷ atoch neu'n gadael)
- yn newid y cyfrif rydym yn talu budd-daliadau i mewn iddo
- newid yn eich incwm – yn cynnwys cynhaliaeth ac enillion rhan-amser
- gweithio mwy neu lai o oriau
- mynd yn sâl, neu
- yn cael mwy neu lai o fudd-daliadau eraill.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech ddweud wrthym am newid, gwnewch hynny beth bynnag. Os na fyddwch yn gwneud, gallech golli allan ar arian y dylech ei gael. Neu, gallech gael gormod o arian, a bydd yn rhaid i chi ei ad-dalu.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Beth os byddaf yn mynd i'r ysbyty?

Os byddwch chi neu'ch partner yn gwybod bod yn rhaid i chi aros yn yr ysbyty, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith.

Sut y gallaf gael rhagor o wybodaeth

Help gyda chostau iechyd

I gael gwybod mwy am help gyda chostau iechyd gan y GIG, ewch i'r wefan ar gyfer yr ardal lle rydych yn byw:

- Cymru
  www.nhsdirect.wales.nhs.uk/small/cy/hafan/gwybodaethiechyd
- Lloegr
  www.dh.gov.uk/helpwithhealthcosts
- Yr Alban
  www.scotland.gov.uk/publications

Opsiynau Cynhaliaeth Plant

Ffôn 0800 988 0988
Gwefan www.cmoptions.org
Dydd Llun i ddydd Gwener 8am i 8pm, a dydd Sadwrn 9am i 4pm

Ni fydd gan Opsiynau Cynhaliaeth Plant eich gwybodaeth bersonol i allu ateb cwestiynau ar eich cais am fudd-dal. Ond gallant eich helpu deall eich dewisiadau a'ch helpu i sefydlu trefniadau cynhaliaeth.

Am wybodaeth am gostau galwadau, gweler tudalen 19

Costau galwadau

Roedd y costau yn gywir ar y dyddiad sydd ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai cost galwadau i rifau 0845 o linellau daear BT fod yn fwy na 4c y funud gyda thâl o 9c ar gyfer gwneud yr alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly gofynnwch i'ch darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau Testun

Mae'r rhifau ffôn tesun a ddarparwn yn rhai ar gyfer pobl sy'n ei chael hi'n anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd gan ambell lyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae Directgov yn rhoi gwybodaeth gan adrannau llywodraeth y DU am bob math o bynciau. I gael gwybod mwy am ba fudd-daliadau y gallech fod yn gymwys i'w cael, ewch i
www.direct.gov.uk/cynghoryddbudd-daliadau

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymroddedig i weithredu egwyddorion cyfle cyfartal yn ei rhaglenni a'i gwasanaethau.

Cynhyrchwyd gan y Ganolfan Byd Gwaith,
rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau

ISBN 978-1-84763-010-0
DWP1003W | f4.1 (Chwefror 2010) | v4.1 (February 2010)